

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
RHONDDA CYNON TAF**

GWŶS I BWYLLGOR

Mr C. B. Jones
Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Y Pafiliynau
Parc Hen Lofa'r Cambrian
Cwm Clydach, CF40 2XX

Ffôn: (01443) 424081 C Hendy

Bydd cyfarfod o'r **Pwyllgor Materion Rheoli Datblygu** yn cael ei gynnal yn **Swyddfeydd Cyngor y Fwrdeistref Sirol, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, brynhawn Iau, 22 Mehefin 2017 am 5.00pm.**

ER GWYBODAETH AC FEL RHEOL GYFFREDINOL, BYDD GOFYN I UNRHYW AELODAU O'R CYHOEDD SY'N DYMUNO SIARAD AR UNRHYW EITEM YN YR AGENDA YMA, Y MAE GYDA NHW FUDDIANT YNDDI, GYFLWYNO CAIS FFURFIOL I'R UWCHADRAN MATERION RHEOLI DATBLYGU, TŶ SARDIS, PONTYPRIDD O LEIAF DAU DDIWRNOD GWAITH CYN DYDDIAD Y CYFARFOD. DYLAU UNRHYW UN SY'N DYMUNO ANNERCH Y PWYLLGOR DRWY GYFRWNG Y GYMRAEG GYSYLLTU Â'R GWASANAETHAU LLYWODRAETHOL AR 01443 424102.

ER GWYBODAETH I'R RHEINI A FYDD YN Y CYFARFOD, MAE'N BOSIBL Y CAIFF MATERION EU TRAFOD MEWN TREFN WAHANOL I'R HYN SYDD WEDI'I NODI YN YR AGENDA ER MWYN GALLUOGI UNIGOLION SYDD AM GYFRANNU YN Y CYFARFOD I WNEUD HYNNY. CAIFF TREFN YR AGENDA EI HADDASU ER MWYN HWYLUSO BUSNES Y PWYLLGOR ORAU.

AGENDA

1. DATGAN BUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau yn unol â gofynion Cod Ymddygiad y Cyngor.

Noder:

1. Gofynnir i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr eitem y mae eu buddiant yn ymwneud â hi a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant personol sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

2. DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A PHENDERFYNIADAU RHEOLI DATBLYGU

Nodi y dylai aelodau o'r Pwyllgor, pan fyddan nhw'n trafod y materion rheoli datblygu, roi ystyriaeth i'r Cynllun Datblygu a, cyn belled â'u bod yn berthnasol, i geisiadau ac i ystyriaethau eraill. Pan fyddan nhw'n gwneud penderfyniadau, rhaid i Aelodau sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu'n groes i'r Confensiwn ar Hawliau Dynol fel y'i hymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

3. DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

3. Nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

4. COFNODION

Cadarnhau bod y cofnodion o gyfarfodydd y Pwyllgor Materion Rheoli Datblygu ar 6 Ebrill 2017 ac ar 20 Ebrill 2017 yn rhai cywir.

Tudalennau

1- 4

5- 8

5. CYFARFOD AR SAFLE

Cais Rhif: 13/1361/10 – Adeiladu pedwar byngalo (cafwyd gwybodaeth ecolegol ychwanegol ar 26/03/15 a 09/02/15 a chafwyd cynlluniau diwygiedig ar 08/06/16 sy'n dangos mynediad diwygiedig i'r safle, troetffordd ychwanegol ar Arth Wen, lleoliad newydd i'r man troi a phatio blaen llai i randir 3), tir wrth ymyl "Garth Wen", Garth Road, Trealaw.

9 - 30

6. ADRODDIADAU CYFARWYDDWR GWASANAETH, MATERION CYNLLUNIO

CEISIADAU SYDD WEDI'U HARGYMELL AR GYFER EU CYMERADWYO

1. Cais Rhif: 15/1228 - Cais i gymeradwyo mater sydd wedi'i gadw'n ôl ar gyfer ail gam y gwaith sy'n cynnwys adeiladu 30 adeilad newydd, gan gynnwys 4 annedd fforddiadwy newydd a ffyrdd a seilwaith cysylltiedig. (Derbyniwyd yr wybodaeth ychwanegol 14 Gorffennaf 2016) (Disgrifiad diwygiedig 2 Awst 2016), tir cyfagos i Farm Road, Heol Tŷ Aberaman, Aberaman, Aberdâr. **31 - 44**
2. Cais Rhif: 16/1181 - Addasu, ymestyn a newid defnydd o Dafarn (A3) i fod yn **44 - 52**

4 fflat ar gyfer myfyrwyr gydag ardal amwynderau / gwasanaeth yn y cefn, The Bridge Inn, Bridge Street, Treforest, Pontypridd.

3. Cais Rhif: 16/1330 - Mae ein caniatâd cynllunio dros dro wedi dod i ben. Rydyn ni'n awyddus i ymestyn hyn am dair blynedd arall. Rydyn ni'n dymuno gwneud cais am ganiatâd cynllunio dros dro pellach i gadw'r cynwysyddion ar y safle i gefnogi'r busnes presennol. Dydyn ni ddim yn dymuno gwneud unrhyw newidiadau neu ddiwygiadau. Ein bwriad yw prynu'r tir o fewn 12-24 mis, ac felly ein galluogi ni i wneud cais am ganiatâd cynllunio parhaol ar wahân ar gyfer adeilad er mwyn gwneud y busnes yn gynaliadwy. Cyfeirnod cynllunio gwreiddiol - 12/0509/10, The Prairie, Mynachdy Farm, Ynys-y-bwl, Pontypridd. **52 - 59**
4. Cais Rhif: 16/1346 – Cynllun arfaethedig i adeiladu dwy garej a chynhwysydd / sied. Newid defnydd o dir a brynwyd yn ddiweddar i fod yn ardd ychwanegol. (derbyniwyd y cynlluniau diwygiedig 06/02/17), 8 Bryn Ffynon, Trebanog, Y Porth. **60 – 70**
5. Cais Rhif: 16/1371 - Datblygiad preswyl am 4 annedd (derbyniwyd y cynllun safle diwygiedig 15/04/17), Cyn Ffatri Potelu, Botanegol, tir cyfagos i The Paddocks, Aberaman, Aberdâr. **70 – 86**
6. Cais Rhif: 16/1399 - Estyniad arfaethedig i uned ddiwydiannol bresennol ar gyfer ffatri pecynnu wyau, Uned 45, Ystad Ddiwydiannol Hirwaun, Hirwaun, Aberdâr. **86 – 93**
7. Cais Rhif: 17/0024 - Adeiladu ffens derfyn, teras a sied yn yr ardd ffrynt 134 Kenry Street, Tonypandy. **93 - 99**
8. Cais Rhif: 17/0235 - Cais amlinellol ar gyfer annedd ar wahân ar ochr ogledd-ddwyreiniol Havachat Bungalow, Havachat, Cardiff Road, Mwyndy, Pont-y-clun. **99 -111**
9. Cais Rhif: 17/0326 - Amrywio amod 1 yng nghais cynllunio rhif: 13/0988/13 i ganiatáu cyfnod o 3 blynedd arall ar gyfer cyflwyno cais i gymeradwyo mater sydd wedi'i gadw'n ôl am dŷ annedd sengl, Tyberw, Hafod Lane, Pantygraig-Wen, Pontypridd. **111 - 120**

7 CEISIADAU A ARGYMHELLIR AR GYFER EU GWRTHOD

1. Cais Rhif: 17/0195 - Cais cynllunio amlinellol ar gyfer datblygiad preswyl o ryw 15 o anheddau, mannau agored, tirlunio, nodweddion draenio a seilwaith cysylltiedig gyda'r holl faterion wedi'u cadw'n ôl ac eithrio mynediad. Tir y tu ôl i Sion Terrace, Cwm-bach, Aberdâr. **121 - 134**

8 CEISIADAU WEDI'U GOHIRIO

1. Cais Rhif: 16/1292 - Newid defnydd: o annedd i dŷ amlfeddiannaeth (C4) - **135 - 146**

bydd yn cynnwys 2 ystafell wely a 3 stiwdio (y cynlluniau a'r disgrifiad diwygiedig wedi dod i law ar 06/03/17), 2 Scranton Villas, High Street, Y Cymer, Y Porth.

9. ADRODDIADAU ER GWYBODAETH

Rhoi gwybod i'r Aelodau am y canlynol, am y cyfnod 10/04/2017 a 09/06/2017. Penderfyniadau Cynllunio a Gorfodaeth Apeliadau a Dderbyniwyd. **147 - 190**

Penderfyniadau Dirprwyedig, Ceisiadau wedi'u Cymeradwyo a'u Gwrthod gyda Rhesymau.

Trosolwg o Achosion Gorfodaeth.

Gorfodi Penderfyniadau Dirprwyedig.

10. EITEMAU BRYD

Trafod unrhyw eitemau sydd, yn ôl doethineb y Cadeirydd, yn faterion brys yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.

Cylchrediad:

Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu:

Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Materion Rheoli Datblygu:
(Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol S. Rees a G Caple)

Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol J.Bonetto, A.Davies - Jones, D. Grehan , L. Hooper, G. Hughes, P.Jarman, D. Williams, J.Williams a C.Willis

15 Mehefin 2017